# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher 19 Mawrth 2013 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr, I W Armstrong, J.R. Bartley (arsyllwr), J A Butterfield, J Chamberlain-Jones, W L Cowie, M Ll. Davies, R J Davies, S.A. Davies, P A. Evans, H Hilditch-Roberts, C. Hughes. T.R. Hughes, P M Jones, M. McCarroll, W M Mullen-James (Cadeirydd), R M Murray, P W Owen,. D Owens, T M Parry, A Roberts, D Simmons, B. Smith (aelod lleol / arsyllwr) J Thompson-Hill, C H Williams, a H O Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Graham Boase), Rheolwr Rheoli Datblygu (Paul Mead), Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (Susan Cordiner) Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Swyddog Priffyrdd (Mike Parker), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a’r Cyfieithwyr (Catrin Gilkes a Bryn Jones).
Roedd Angela Loftus (Cynllun Datblygu Lleol a Rheolwr Polisi) a Martha Savage (Swyddog Mwynau a Gwastraff) yn bresennol am ran o'r cyfarfod

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M Ll. Davies, E.A. Jones, W.N. Tasker, J S Welch a C L Williams

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim

**3 MATERION BRYS: Dim**

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 Chwefror 2014**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar ychwanegiad at yr eitem ar River Lodge, Llangollen - Dymunodd y Cynghorydd Stuart Davies iddo gael ei nodi ei fod wedi mynegi'r farn yn ystod y drafodaeth y dylai'r ymgeiswyr fod yn gyfrifol yn ariannol am ddarparu croesfannau a reolir.

**5 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU**

Nodwyd bod ystafell gorlif ar gael ar gyfer y cyhoedd.
Cafodd yr eitem 31/2013/1069/PF (Amlosgfa Arfaethedig, Ffordd Glascoed, Llanelwy) ei chlywed gyntaf

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhestru ceisiadau a gyflwynwyd ac y mae angen i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

*PENDERFYNWYD:-*

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio, fel sy'n berthnasol, dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1991 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau canlynol yn unol â'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir:-*

**Cais Rhif:** 31/2013/1069/PF

**Lleoliad:** **Tir i’r gorllewin o Barc Busnes Llanelwy ar ochr ddeheuol Ffordd Glascoed, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Codi amlosgfa gyda maes parcio cysylltiedig, ffordd fynediad a gerddi coffa, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod gwaith trin

Dosbarthwyd nifer o sylwadau, nodiadau briffio Aelodau, a nodiadau Swyddogion yn y taflenni sylwadau hwyr. Roedd y sylwadau oddi wrth

Mrs L. Griffiths, Cottage Villa, Heol Glascoed, Llanelwy
David Cummings, drwy e-bost
Gareth Jones, trwy e-bost
Mark Evans, Pebble Hill Property Ltd, Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno, Conwy
Mrs K Barlow, 4 Elwy View, Stryd y Felin, Llanelwy
Mr M Barlow, 5 Maes Robert, Cefn, Llanelwy
G. Roberts, Cyfarwyddwr Angladdau, Bro Cottage, Waen, Llanelwy
Grŵp Defnyddwyr a Thrigolion Cefn Meiriadog a Ffordd Glascoed.

**<u>Siaradwyr Cyhoeddus:</u>**

**YN ERBYN**

<u>Mr Martin Barlow</u>
Dechreuodd Mr Barlow drwy gydnabod gallai fod yna angen ar gyfer amlosgfa yn Sir Ddinbych ond teimlai y dylid ei wrthod oherwydd nad yw'r safle hwn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yr oedd hefyd yn groes i’r CDLl gan nad oedd yn bosibl cerdded i'r safle ac nid oedd gwasanaeth bws a fyddai'n gostus i'w ddarparu.

Roedd Mr Barlow’n teimlo bod yr asesiad safle a gyflwynwyd yn wan gan ei fod ond yn edrych ar Ffordd Glascoed. Gofynnwyd am asesiad annibynnol.

Teimlai ei bod yn bwysig i warchod tir amaethyddol safon uchel ac roedd yn bryderus am yr effaith ar blant a fyddai'n pasio o ddydd i ddydd. Roedd o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar gymeriad yr ardal. Dywedodd fod hon yn gymuned a oedd eisoes dan warchae o ddatblygiad.

<u>Mr Huw Evans</u>
Dywedodd Mr Evans bod Cefn Meiriadog yn ardal brydferth ac yn gymuned agos sydd wedi bod yn ei gartref iddo ar hyd ei oes. Mae'r pentref wedi dioddef datblygiad yn ymwneud â ffermydd gwynt ar y môr, gan gynnwys gosod ceblau yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd Mr Evans yn teimlo fod hwn yn lle anghywir ar gyfer amlosgfa, gan y dylai fod yn nes at ganolfannau poblogaeth. Cyfeiriodd at bryderon

priffyrdd ac nad oedd unrhyw bolisïau cynllunio yn ymddangos i ddarparu ar gyfer teimladau pobl leol.

**O BLAID**

Mr Rhys Davies

Siaradodd Mr Davies o blaid gan ddweud bod amlosgfeydd yn dod yn rhan o'r gymuned a bod angen wedi'i brofi am gyfleuster o'r fath.

Credir bod y safle'n addas oherwydd ei leoliad canolog a byddai'n cael ei sgrinio mewn modd sensitif.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau priffyrdd a phwysleisiodd Mr Davies nad yw amlosgfeydd yn cynhyrchu unrhyw arogl neu fwg o ganlyniad i brosesau modern.

Mae pryderon lleol yn erbyn amlosgfeydd mewn ardaloedd eraill wedi bod yn ddi-sail ac nid oeddent wedi cael unrhyw wrthwynebiadau unwaith roedd y safleoedd wedi cael eu datblygu.

Anogodd Mr Davies y pwyllgor i ystyried y manteision y byddai hyn yn ei ddod i'r Sir.

Mr Jameson Hodgson.

Dywedodd Mr Hodgson wrth y pwyllgor fod yr ymgeiswyr "Memoria" yn gwmni teuluol ac wedi datblygu amlosgfeydd mewn llawer o leoliadau yn y Deyrnas Unedig wrth gadw cysylltiadau agos gyda'r gymuned leol.

Dywedodd y cafodd y safle ei ddewis yn ofalus. Nid oedd yn credu y byddai yna effaith andwyol ar y Parc Busnes na'r lleoliad.
Dywedodd y gellid dargyfeirio traffig angladdau i ffwrdd oddi wrth y Parc Busnes ac y byddai'r angladdau ond yn digwydd rhwng 10am a 3pm. Ni fyddai'r adeilad yn weladwy unwaith byddai'r tirlunio wedi ei sefydlu ac roedd cynnig i ystyried cyfraniadau i wella gwasanaethau bysiau ac i ddarparu arosfannau bysiau. Eglurodd Mr Jamieson hanes trafodaethau gyda Swyddogion yn dyddio yn ôl i 2009, gan gynnwys chwilio am safle addas.

Daeth i ben trwy ddarllen llythyr gan Esgob Llanelwy, yn cefnogi'r cynnig.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Bapur Briffio'r Aelodau a oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Roedd y Cynghorydd B. Cowie o'r farn efallai bod angen amlosgfa gan fod yr amser aros o 2-3 wythnos ar gyfer angladd yn annerbyniol. Fodd bynnag, roedd ei ymchwil wedi dangos nad hwn oedd y lleoliad gorau ar ei gyfer. Teimlai'r Cynghorydd Cowie y dylai fod yn nes at ganol y Sir gyda gwell hygyrchedd, gan gynnwys cysylltiadau bws. Awgrymodd y dylid cyfyngu datblygiadau ar dir amaethyddol o ansawdd uchel.

Cyfeiriodd y Cynghorydd B. Smith at ansawdd y tir amaethyddol a fyddai'n cael ei golli a chwestiynodd yr achos angen meintiol, a oedd angen wedi ei brofi, a oedd y safle yn wirioneddol hygyrch ac a allai'r gwelliannau arfaethedig i gysylltiadau

cludiant cyhoeddus gael eu darparu gan yr amodau cynllunio a awgrymwyd. Cwestiynodd y broses o ddewis safle ac a oedd y cynllun wir yn "gyfleuster cymunedol".

Nododd y Cynghorydd M. Parry y diffyg cefnogaeth ar gyfer y lleoliad hwn ymhlith y cyfarwyddwyr angladdau yn yr ardal ac roedd hefyd yn teimlo y dylid ei leoli ymhellach i'r de gan fod Amlosgfa Mochdre Bae Colwyn ddim ond 10 milltir i ffwrdd. Roedd hefyd yn poeni am absenoldeb gwasanaeth bws ac effaith y datblygiad ar forâl y gweithwyr yn y Parc Busnes.

Roedd y Cynghorydd J. Thompson Hill yn credu bod angen yr amlosgfa ond roedd pryderon ynghylch materion mynediad.

Roedd gan y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn effaith yr allyriadau a nododd nad oedd unrhyw gwynion lleol ym Mhentrebychan, Wrecsam, er iddo weld mwg yn dod o’r simneiau

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn pryderu am golli tir amaethyddol a materion cludiant. Gofynnodd a ddylai'r datblygiad fod o fewn ffin ddatblygu.

Awgrymodd y Cynghorydd J. Davies fod hwn yn gyfleuster rhanbarthol gyda barn gref o blaid ac yn erbyn. Gofynnodd a oedd unrhyw reolaeth posibl dros lwybrau gorymdeithiau angladd, ac a fyddai unrhyw effaith debygol ar ddeiliaid anheddau.

Roedd y Cynghorydd Colin Hughes yn anhapus o gael ei lobïo cyn y pwyllgor, ond hefyd yn ystyried bod y lleoliad arfaethedig yn annoeth, yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol, a gallai effeithio ar broffil y Parc Busnes.

Teimlai'r Cynghorydd H. Hilditch Roberts ei bod yn bwysig peidio â gwyro oddi wrth y Cynllun Datblygu Lleol gan y byddai'n gosod cynsail.

Cytunodd y Cynghorydd H. O Williams.

Cwestiynodd y Cynghorydd D. Owens y broses ymgynghori a chytunodd nad oedd y lleoliad yn addas.

Dywedodd y swyddogion bod argymhelliad clir o blaid ond roeddent yn deall nad oedd yn benderfyniad hawdd. Roedd yn bwysig i ddelio â'r cais yn ôl ei deilyngdod. Roedd y tir dan sylw yn dir amaethyddol gradd 3A, yr un fath â thir arall a nodwyd yn yr asesiad chwilio am safle.

Eglurodd Mike Parker (Priffyrdd) nad oedd unrhyw wrthwynebiad ar sail priffyrdd. Nid yw'r ffyrdd mynediad yn gul nac yn arbennig o brysur. Byddai angen gwybod lle fyddai arosfannau bysus yn cael eu cynnig er mwyn rhoi sylwadau ar yr elfen honno. Efallai y bydd yn bosibl awgrymu llwybr mynediad ar gyfer cynebryngau, gan osgoi’r parc busnes, ond ni allai fod yn destun amod.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Bill Cowie WRTHOD caniatâd, yn groes i argymhelliad y Swyddogion.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Cowie at y materion a godwyd yn y ddadl ar y cais a chyfeiriodd yn benodol am fod yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol, colli tir amaethyddol, diogelwch priffyrdd, tirwedd ac effaith weledol.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

Ar roi'r cais i'r bleidlais:

**Pleidleisiodd 4 i GANIATÁU**
**Pleidleisiodd 15 i WRTHOD**
**4 yn Ymatal**

Felly, **GWRTHODWYD** y caniatâd yn groes i argymhelliad y swyddogion.

Gwnaed y penderfyniad, sy'n groes i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau a ganlyn:
Gwrthdaro â'r Cynllun Datblygu Lleol, colli tir amaethyddol, diogelwch priffyrdd, tirwedd ac effaith weledol

Rhesymau llawn dros wrthod i'w drafftio gan y Swyddogion.

**Cais Rhif:** 24/2013/1461/PF

**Lleoliad:** Tir yn cyffinio â Hafod Ynys Rhewl Rhuthun

**Disgrifiad:** Codi 10 annedd, garejys cysylltiedig,
mynediad i gerbydau, mannau agored cyhoeddus ac
ardal
barcio gyhoeddus

Cafodd adroddiad o ymweliad safle a gynhaliwyd ddydd Gwener 14 Chwefror, 2014 ei gynnwys yn y taflenni gwybodaeth hwyr.

Mynegodd y Cynghorydd M. Parry ei werthfawrogiad am yr ymweliad safle a oedd yn delio â materion megis parcio a darparu palmant, ac argaeledd swm cymudol ar gyfer defnydd yr ysgol. Gofynnodd y Cynghorydd Parry bod y maes parcio a mynedfa'r ystâd yn cael eu defnyddio yn gyntaf.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd M. Parry y dylid RHOI caniatâd
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd S. Davies

**PLEIDLAIS:**
**Pleidleisiodd 21 i GANIATÁU**
**Pleidleisiodd 0 i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

***Yn amodol ar:*** yn amodol ar Amod Ddiwygiedig

Ni fydd y datblygiad yn cael ei ganiatáu i gychwyn hyd nes bo'r trefniadau ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r ardal barcio yn y dyfodol wedi cael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a bod y man parcio yn cael ei orffen cyn i bobl symud i'r annedd gyntaf.

**a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd:**

Byddwch yn ymwybodol bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn sylwadau oddi wrth berchnogion Hafod Ynys, yn tynnu sylw at y darluniad o ffin yr eiddo. Er na all yr Awdurdod weithredu fel canolwr mewn unrhyw anghydfod sifil dros derfyn yr eiddo, dylech sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau preifat dros weithredu'r caniatâd cynllunio, neu unrhyw sail ar gyfer herio dilysrwydd y cais neu roi caniatâd yn seiliedig ar hawliadau sylweddol anghywir neu gamarweiniol ar berchnogaeth tir, neu fethiant i gwblhau'r Rhybudd(ion) priodol i gyd-fynd â'r cais caniatâd cynllunio.

Tynnir eich sylw at y posibilrwydd y gallai'r arolwg/ adroddiad coed gynnwys cyfeiriad at goed mewn perchnogaeth ar wahân, felly dylech sicrhau bod unrhyw waith ar goed neu wrychoedd ar neu yn agos at derfyn yr eiddo o fewn eich perchnogaeth.

**Cais Rhif:** 43/2013/1352/PF

**Lleoliad:** **Tir oddi ar Graham Avenue, Gallt Melyd, Prestatyn**

**Disgrifiad:** Codi 2 annedd ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau

Cyfeiriwyd at y llythyrau ychwanegol canlynol o sylwadau yn y daflen wybodaeth hwyr:

Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Tref Prestatyn; Gibbons, Clairville Ffordd Penrhwylfa; a D Ashton 4 Graham Avenue, Gallt Melyd.

Gobeithiai'r Cynghorydd Peter Evans (aelod lleol) y byddai'r gwrych ar ochr y Lawnt Fowlio yn cael ei chadw.

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Evans y dylid RHOI caniatâd.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd H Hilditch Roberts.

**PLEIDLAIS:**
**Pleidleisiodd 22 i GANIATÁU**
**Pleidleisiodd 0 i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

***Yn amodol ar:***

Amod(au) Newydd

Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad i gychwyn hyd nes y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran manylion y trefniadau draenio dŵr budr a dŵr wyneb. Rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn i neb fyw yn yr annedd cyntaf.

Rheswm - I sicrhau system ddraenio foddhaol mewn perthynas â'r datblygiad.

Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad gychwyn hyd nes y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynllun safle manwl yn dangos lefelau terfynol y safle cyfan, gan gynnwys lefelau llawr gorffenedig yr anheddau, pob llwybr, tramwyfeydd ac ardaloedd parcio, ac ail-linio’r ardaloedd a gynigir fel gerddi ar gyfer yr anheddau. Bydd y manylion hynny a gymeradwyir yn ddiweddarach yn cael eu rhoi ar waith yn llawn wedyn oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm - Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau derbyn gwahanol elfennau o'r cynllun.

**Cais Rhif:** 45/2013/1452/PS

**Lleoliad:** **Uned 2 a 3 Glan Aber Works Ystâd Fasnachu Glan Aber**

**Vale Road Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Amrywio amod rhifau 2 a 5 o ganiatâd cynllunio cyf 45/2012/0280/PF i ganiatáu defnyddio rhan o uned 3 fel swyddfa, cladin i flaen uned 3, storio sgipiau gwag o flaen uned 2 a chynhwysydd llongau yng nghefn uned 3

Dosbarthwyd cynllun cliriach i amlinellu'r cynigion.

Roedd Martha Savage (Swyddog Mwynau a Gwastraff, Sir y Fflint) yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ac eglurodd y cefndir o fonitro'r safle hwn a arweiniodd at y cais hwn i unioni'r tor-amod a gafodd ei ddarganfod.  Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw wrthdaro gyda'r caniatâd sy'n ymwneud â storio asbestos ar y safle.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Pat Jones ROI caniatâd
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. McCarroll ar y ddealltwriaeth y cedwir yn llym at yr amodau.

Ar roi'r cais i'r bleidlais:

**PLEIDLAIS:**
**Pleidleisiodd 20 i GANIATÁU**
**Pleidleisiodd 0 i WRTHOD**
**1 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

Yn amodol ar na dderbynnir unrhyw sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref y Rhyl erbyn 22 Mawrth 20014 yn codi materion cynllunio defnydd tir na chafwyd eu trin eisoes yn adroddiad y Swyddog.

**Cais Rhif: 47/2013/1478/PC**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Trac o Terfyn i Marian Mills Cwm Dyserth Y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Gwaith cynnal a chadw i olrhain defnyddio agregau wedi'u hailgylchu i lefelu'r ardal a'i orchuddio â chynnyrch meddal (cais ôl-weithredol) |

Eglurodd y Cynghorydd Barbara Smith hanes y mater hwn, fod yr ymgeisydd wedi wynebu'r trac (a oedd wedi bod yn fwdlyd a chorsiog) heb wybod am yr angen am ganiatâd cynllunio. Nodwyd y bu cais am ychwanegu wyneb gyda dyfnder o 150 mm (6 modfedd), ond ni chafodd hyn ei nodi yn argymhelliad y swyddog.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd S Davies ROI caniatâd i'r amod arfaethedig

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd D. Owens

Ar roi'r cais i'r bleidlais:

**PLEIDLAIS:**
**Pleidleisiodd 19 i ROI caniatâd heb yr amod arfaethedig**
**Pleidleisiodd 2 i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

***Yn amodol*** *ar ddileu Amod Rhif* 1

**EITEM 6**

**Drafft Briff Datblygu Safle CDLl 2: Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**

**Cyflwynwyd adroddiad gan Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** i roi gwybod i Aelodau am y Brîff Datblygu Safle drafft ar gyfer Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac i ofyn iddynt gymeradwyo cynnal ymgynghoriad ar y Brîff Datblygu Safle drafft gyda chyrff statudol a'r cyhoedd. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Brîff Datblygu Safle yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio ar y safle.

Cyflwynodd Ms Loftus yr adroddiad ac eglurodd y broses o weithdai a dadl ar y mater hwn a thynnodd sylw'r Aelodau at y newidiadau arfaethedig a nodir ar yr atodiad a ddosbarthwyd.

Mynegodd y Cynghorydd S Davies bryder am y broses ymgynghori gyda'r Aelodau, ond cynigodd bod y Brîff Datblygu Safle drafft ar gyfer Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan yn cael ei gytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd B. Cowie

Ar roi’r cais i’r bleidlais:

**Pleidleisiodd 21 i gytuno** ar y Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan er dibenion ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 8 wythnos.

0 yn Ymatal

Felly penderfynwyd cytuno ar y Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan er dibenion ymgynghoriad cyhoeddus.

**EITEM 7**

**Canllaw Cynllunio Atodol Yr Iaith Gymraeg - Mabwysiadu'r Ddogfen Derfynol**

Cyflwynwyd adroddiad gan Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn crynhoi ymatebion o'r ymgynghoriad diweddar ar y CCA drafft, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ac argymell mabwysiadu heb addasiadau gan alluogi'r canllawiau i gael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Cyflwynodd Angela Loftus yr eitem hon, gan egluro bod y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 10 wythnos rhwng 2 Rhagfyr a 10 Chwefror, 2014 a thynnodd sylw'r Aelodau at yr adroddiad ymgynghori yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd wedi cael eu dosbarthu.
Trafododd yr Aelodau ledaeniad a'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal – Cynigodd y Cynghorydd Stuart Davies bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r CCA terfynol ar yr iaith Gymraeg i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J. Thompson - Hill

Ar roi'r cais i'r bleidlais:
Pleidleisiodd 20 i fabwysiadu
Pleidleisiodd 1 i beidio a mabwysiadu
0 yn Ymatal

Penderfynwyd felly fod y CCA terfynol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer ei ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio

**EITEM 8**
**EITEM WYBODAETH**

**CYFLWYNWYD: ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**
**YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU -**
**DEFNYDDIO AMODAU AR GYFER RHEOLI DATBLYGU**

Eglurodd Paul Mead (Rheolwr Rheoli Datblygu) fod Llywodraeth Cymru yn edrych i safoni amodau cynllunio a bod gwybodaeth bellach ar gael ar y wefan www.wales.gov.uk

Gofynnwyd am sylwadau erbyn y dyddiad cau o 25 Ebrill, 2014

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

**EITEM YCHWANEGOL**

O ganlyniad i gwestiynau gan y Pwyllgor cynigodd Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD Graham Boase i ddiweddaru'r holl Aelodau ar gynnydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyn-Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych. Hefyd, cafodd y pwyllgor ei atgoffa am Apêl Adran 55 sy'n cychwyn ar 8 Ebrill 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12 hanner dydd**